**Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019. O'r Asesiad Effaith Integredig.**

Fe wnaeth Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (y Ddeddf) bennu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru.

Mae Adran 3 y Ddeddf yn rhoi'r prif nodau canlynol i Gymwysterau Cymru, ac mae'n rhaid iddo weithredu'n unol â'r rhain wrth ymarfer ei swyddogaethau: :

a) Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a

b) Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Mae Adran 4 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Cymwysterau Cymru gydnabod cyrff dyfarnu. Mae Rhan 7 y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch y camau y gall Cymwysterau Cymru eu cymryd os yw'n ystyried bod corff dyfarnu yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio ag amod y mae'r ffaith iddo gael ei gydnabod, neu i gymhwyster a ddyfernir iddo gael ei gymeradwyo, yn amodol arno.

<u>Pŵer Cymwysterau Cymru i osod cosb ariannol</u>

Ymhlith y cosbau gorfodol sydd ar gael i Cymwysterau Cymru mae'r pŵer i gyflwyno cosb ariannol ar gorff a reoleiddir ganddo, am beidio â chydymffurfio â'i Amodau Cydnabod Safonol a dogfennau rheoleiddiol.

Mae Adran 38(3) y Ddeddf yn nodi bod maint y gosb i'w bennu'n unol â'r rheoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y rheoliadau yw cyfyngu ar ystod y gosb y gall Cymwysterau Cymru ei godi ar gyrff y mae'n eu rheoleiddio. Gwneir y rheoliadau dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Cynulliad er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i ymarfer ei bwerau i osod cosb ariannol.

## Cynnig

Cyn i Ddeddf 2015 gael Cydsyniad Brenhinol, roedd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i osod cosb ariannol hyd at 10% o gyfanswm trosiant y corff dyfarnu dan sylw; roedd hyn yn cyfateb i'r darpariaethau a ddatblygwyd gan yr Adran Addysg ar gyfer eu gweithredu gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr.

Mae'r rheoliad yr ydym am ei gyflwyno nawr hefyd yn gosod terfyn uchaf ar gyfer cosb ariannol o 10% o drosiant blynyddol corff dyfarnu yn y DU lle gaiff Cymwysterau Cymru osod cosb ariannol ar gorff dyfarnu sy'n methu â chydymffurfio â'i safonau cydnabod safonol. Bydd y rheoliadau hefyd yn diffinio'r paramedrau a ddefnyddir gan Cymwysterau Cymru i benderfynu beth yw trosiant y corff dyfarnu.

**Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymarfer Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau rhwng Hydref 2018 ac Ionawr 2019 ac fe'i cyhoeddwyd ar Wefan Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd 13 ymateb er gwaetha'r ffaith bod Cymwysterau Cymru'n rheoleiddio 104 o gyrff dyfarnu. Cafwyd wyth ymateb gan gyrff dyfarnu.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad (un ar ddeg allan o dri ar ddeg) yn cytuno y dylai Cymwysterau Cymru allu gosod cosbau ariannol ac y dylid diffinio terfyn uchaf. 'Rydym yn cytuno y dylai holl Reoleiddwyr fod â'r gallu i ddefnyddio cosbau ariannol fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli risg a'u gweithredoedd ataliol'.

Ar ôl ystyried ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a'r pryder a fynegwyd gan rai cyrff dyfarnu ynghylch pennu'r gosb uchaf fel 10% o'u trosiant yn y DU, mae'n bwysig nodi y byddai symud i ffwrdd o'r dull hwn yn achosi problemau am sawl rheswm.

<u>10% o drosiant</u>

Teimlai rhai cyrff dyfarnu y byddai'n bosibl gwahanu 'refeniw' a gynhyrchir o fusnes yng Nghymru. Fel y nodwyd eisoes, nid yw Cymwysterau Cymru'n gallu cael mynediad i ddata awdurdodol ar drosiant cyrff dyfarnu yng Nghymru (yn hytrach na'r DU cyfan). Ni all ond gael mynediad i drosiant yn y DU gan fod cyrff dyfarnu fel rheol wedi'u cofrestru fel cwmnïau sy'n gweithio yn Lloegr a Chymru. Byddai Cymwysterau Cymru'n gweithio gyda chorff dyfarnu a allai fod yn destun cosb ariannol i weld beth oedd lefel eu gweithgaredd yng Nghymru a byddai'n ystyried hyn wrth bennu cosb ariannol posibl.

<u>Gweithgaredd a reoleiddir yn unig</u>

Awgrymodd rhai cyrff dyfarnu mai 'Gweithgaredd a reoleiddir' yng Nghymru'n unig a ddylid ei ystyried wrth bennu unrhyw gosb ariannol. Fodd bynnag, nid yw 'gweithgaredd a reoleiddir' bod amser yn arwain at incwm ac mae gan gyrff dyfarnu nifer o fodelau busnes gwahanol.

Mae diffiniad arfaethedig trosiant yn galluogi Cymwysterau Cymru i gael polisi cosbau ariannol effeithiol sy'n ystyried natur amrywiol y farchnad gymwysterau.

<u>Cysondeb</u>

Er mwyn bod yn gyson gydag Ofqual, rheoleiddiwr cymwysterau Lloegr a rheoleiddwyr eraill, cred swyddogion bod 10% o drosiant corff dyfarnu yn y DU yn derfyn uchaf priodol i'r gosb ariannol y gellir ei osod gan Cymwysterau Cymru.

<u>Rhwystrau a gwrthbwysau</u>

Bydd y Tribiwnlys Haen-Gyntaf yn ei le i sicrhau bod rhwystrau a gwrthbwysau effeithiol yn y system. Dylai'r Rheoliadau nodi'r paramedrau cyffredinol, ond cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr yw gosod cosb ariannol ar lefel briodol sy'n gymesur a rhesymol neu fe fydd yn wynebu'r risg o orfod ateb i'r Tribiwnlys.

Am y rhesymau hyn, teimlir ei bod yn briodol parhau gyda'r cynnig ar gyfer gosod terfyn uchaf i'r gosb ariannol o 10% o drosiant DU corff dyfarnu fel y cynigir yn y papur ymgynghori.

Mae gwaith Cymwysterau Cymru'n cyfrannu at sicrhau Cymru lewyrchus, un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gefnogi ein pobl ifanc i ddatblygu'n weithlu medrus ac addysgedig yn y dyfodol. Mae gwaith Cymwysterau Cymru hefyd yn cyfrannu, yn anuniongyrchol, at gyflawni ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi sy'n gysylltiedig ag addysg a chyrhaeddiad addysgol. Mae'r rheoliadau hyn yn cymryd ymagwedd ataliol trwy roi arf rheoleiddiol ychwanegol i Cymwysterau Cymru ei ddefnyddio fel rhwystr i atal cyrff dyfarnu rhag methu yn eu rhwymedigaethau tuag at ddysgwyr sy'n cymryd eu cymwysterau.

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys y gwaith o'i ddatblygu?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn 2014. Derbyniwyd 62 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriad at y Rheoliadau Cosbau Ariannol yn adran 38.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc hefyd yn Rhagfyr 2014, ac ymatebodd 124 o bobl ifanc.

Cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymarfer ymgynghori gan alw am dystiolaeth hefyd yn 2014 pan oedd y Mesur yn cael ei ddatblygu.

Cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymarfer ymgynghori ar eu hymagwedd at Gosbau Ariannol yn gynnar yn 2018, sef Ymgynghoriad ar gwynion, chwythu'r chwiban a gorfodi.

https://www.qualificationswales.org/media/2854/171115-consultation-on-complaints-whistleblowing-and-enforcement.pdf

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori rhwng Hydref 2018 a Ionawr 2019 ar y polisi Cosbau Ariannol manwl:

https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-10/qualifications-wales-monetary-penalties-regulations_0.pdf

Mae ffurflen adrodd yr ymgynghoriad ar gael yn y ddolen isod:

https://gov.wales/qualifications-wales-monetary-penalties-regulations

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Mae cyflwyno Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019 yn mynd i'r afael â bwlch yn y sancsiynau sydd ar gael i Gymwysterau Cymru, gan nad oedd ynghynt unrhyw beth rhwng pŵer i gyfeirio a'r brif gosb o ddiddymu cydnabyddiaeth y corff dyfarnu.

Mae'r newid hwn yn golygu bod Cymwysterau Cymru bellach yn gweithredu fel rheoleiddwyr tebyg ac mae'n gyson gyda Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008. Bydd yn cryfhau pwerau rheoleiddio Cymwysterau Cymru gan felly wella sicrwydd ansawdd i holl ddysgwyr yng Nghymru. Bydd yn gweithredu fel rhwystr i gyrff dyfarnu ac yn eu hannog i osgoi gwallau mewn papurau arholiad er enghraifft.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Chynllun Mynd i'r Afael â Thlodi**

Mae gwaith Cymwysterau Cymru, a fydd â'r gallu i osod Cosbau Ariannol, yn cyfrannu at sicrhau Cymru lewyrchus, un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy gefnogi ein pobl ifanc i ddatblygu'n weithlu medrus ac addysgedig yn y dyfodol.

Mae gwaith Cymwysterau Cymru hefyd yn cyfrannu, yn anuniongyrchol, at gyflawni ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi sy'n gysylltiedig ag addysg a chyrhaeddiad addysgol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhoi arf rheoleiddiol ychwanegol i Cymwysterau Cymru ei ddefnyddio pe digwydd i gorff dyfarnu fethu yn eu rhwymedigaethau tuag at ddysgwyr sy'n cymryd eu cymwysterau.

**Rhaglen Lywodraethu**

Mae gwaith Cymwysterau Cymru'n cyfrannu tuag at gyflawni Cymru uchelgeisiol ac yn dysgu, sef un o bedair thema allweddol *Ffyniant i Bawb*. Bydd y Rheoliadau Cosbau Ariannol yn arf rheoleiddiol ychwanegol i Cymwysterau Cymru ei ddefnyddio pe digwydd i gorff dyfarnu fethu yn eu rhwymedigaethau tuag at ddysgwyr sy'n cymryd eu cymwysterau.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Disgwylir y bydd y rheoliadau Cosbau Ariannol yn cynorthwyo i sicrhau bod system cymwysterau Cymru yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol o ran ateb anghenion dysgwyr, ac y bydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y math o gyfleoedd cyflogaeth a fydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, ac ar nifer y cyfleoedd hynny. Bydd yn cryfhau'r system reoleiddio yn nhermau amddiffyn buddiannau dysgwyr.

Dylai gweithgarwch ymgysylltu gan Cymwysterau Cymru gyda chyflogwyr, sefydliadau hyfforddi a sefydliadau addysgol gryfhau economi Cymru a buddsoddiad busnesau yn eu cyflogeion a'u hyfforddeion.

Nodwyd y byddai effeithiau cadarnhaol hefyd ar blant a phobl ifanc; gallant fod yn fwy hyderus bod y cymwysterau a gymerir ganddynt yn ateb eu hanghenion rhesymol – yn nhermau cynnwys, asesu a'r gallu i symud ymlaen.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Cynhelir adolygiad o'r Rheoliadau Cosbau Ariannol ymhen 3-4 blynedd fel y gwneir yn arferol gyda deddfwriaeth. Mae tîm Noddi Cymwysterau Cymru yn gweithio'n agos â Cymwysterau Cymru'n ddyddiol ar yr holl feysydd allweddol sef cyllideb, blaenoriaethau ac atebolrwydd cyffredinol.

Ceir cytundeb Fframwaith rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru a gaiff ei adolygu bob 3-5 mlynedd.  Mae Cymwysterau Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ac mae'r Gweinidog Addysg yn cynnal sesiynau adolygu rheolaidd gyda Chadeirydd Cymwysterau Cymru. Awgrymir y caiff y fforymau hyn y cyfle i adolygu a monitro'r defnydd a wneir o'r Rheoliadau Cosbau Ariannol i weld pa mor aml y defnyddir y rheoliadau newydd. Maent yn debygol o fod yn rhwystr yn hytrach nag yn rhywbeth a ddefnyddir yn aml iawn.